**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

—

**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Elin Jones AS
Y Llywydd
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

6 Hydref 2023

Annwyl Lywydd

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai wedi bod yn trafod memoranda cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, a'r ffaith ein bod wedi cyhoeddi adroddiad ar y memoranda gwreiddiol, diwygiedig ac atodol ar 13 Chwefror. Byddwch hefyd yn ymwybodol inni ysgrifennu atoch ar 18 Mai, yn egluro ein bod wedi ystyried Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) ("Memorandwm Rhif 3") a'n bod wedi penderfynu peidio ag adrodd arno. Roedd hyn oherwydd bod gwelliannau a nodir ym Memorandwm Atodol Rhif 3 yn ymwneud ag adroddiadau canlyniadau amgylcheddol nad ydynt yn dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

Ar 12 Medi, cytunodd y Pwyllgor Busnes i'n gwahodd ni, a thri phwyllgor arall, i ystyried Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 4) ("Memorandwm Rhif 4") ac i gyflwyno adroddiad erbyn 13 Hydref. Rydym wedi ystyried Memorandwm Rhif 4 ac yn nodi bod y gwelliannau y manylir arnynt ym Memorandwm Rhif 4 yn ymwneud â'r cenadaethau ffyniant bro, cynllunio a'r amgylchedd.

Ar y sail honno, a'r ffaith ei fod wedi cael ei gyfeirio at bwyllgorau eraill a allai fod â mwy o ddiddordeb yn y gwelliannau hyn, gwnaethom benderfynu peidio ag adrodd ar y memorandwm.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir

John

John Griffiths AS

Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.